# Ymateb sefydliadol

Teitl yr Adroddiad: :**Adolygiad o'r Strategaeth Ddigidol**

**Cyngor:** Cyngor Sir Ddinbych

**Dyddiad cwblhau:** Ionawr 2024

**Cyfeirnod y Ddogfe**n:

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb sefydliadol<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau gweithredu a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu a gynlluniwyd yn cael eu cwblhau | Swyddog Cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| R1 | **Cryfhau'r sail dystiolaeth**<br>I sicrhau bod ei strategaeth ddigidol nesaf yn seiliedig ar wybodaeth gadarn, dylai'r Cyngor dynnu ar sail dystiolaeth ehangach sy'n cynnwys:<br>• cynnwys preswylwyr er mwyn deall eu hanghenion a'r rhwystrau posibl y maent yn eu | Cydnabyddir nad yw'r wybodaeth seiliedig ar dystiolaeth sy'n hysbysu'r strategaeth bresennol yn eglur, a bydd hyn yn cael ei gywiro yn nyluniad a datblygiad y strategaeth newydd, gyda'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn rhagarweiniad neu yn atodiad y ddogfen strategaeth. | Rhagfyr 2025 (y strategaeth newydd i fod yn ei lle) | Barry Eaton - Prif Swyddog Digidol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | hwynebu o ran cael mynediad at, a defnyddio technoleg ddigidol; a<br>• Defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data allanol.<br>**Efallai y bydd y Cyngor yn gweld ein meini prawf archwilio ar gyfer Cwestiynau 1:1 ac 1:2 yn Atodiad 1 yn ddefnyddiol wrth ystyried yr argymhelliad hwn** | Mae Strategaeth Ddigidol bresennol y Cyngor yn rhedeg tan 2025. Ffocws y strategaeth fydd ‘Digidol ar gyfer y Cyngor’ a gyda hyn mewn golwg ein cwsmeriaid fydd meysydd gwasanaeth mewnol yn bennaf. I ddeall eu hanghenion a’r rhwystrau, bydd arolwg neu weithdai’n cael eu cynnal | Rhagfyr 2025 (y strategaeth  newydd i fod yn ei lle) | Barry Eaton - Prif Swyddog Digidol |
| **R2** | **Trefniadau cynllunio a chydweithio**<br>I helpu i sicrhau bod y Cyngor yn adnabod pob cyfle posibl i wella gwerth am arian ac effaith ei ymagwedd strategol drwy waith partneriaeth, dylai’r Cyngor:<br>• adnabod sefydliadau y gallai o bosibl weithio mewn partneriaeth â nhw;<br>• lle mae’r cyngor yn ymrwymo i drefniadau partneriaeth, datblygu trefniadau i asesu a monitro eu gwerth am arian | Mae gwaith partneriaeth yn hanfodol. Rydym wedi sefydlu partneriaethau yn barod yn cynnwys caffael ar y cyd ag awdurdodau lleol ar lefel is-ranbarthol. rhanbarthol a ledled Cymru. Rydym yn asesu’r achos busnes ar gyfer unrhyw gyd-gaffael cyn ymrwymo i unrhyw drefniadau.<br><br>Rydym hefyd yn gweithio ar y cyd â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a phartneriaethau yn WARP Cybersecurity a mentrau ar y cyd eraill ar draws Cymru yn cynnwys SOCITM a CLlLC Digidol. Mae gwaith BUEGC yn destun proses achos busnes 5 achos. Mae’r partneriaethau yn WARP ac ati yn rhwydweithiau a threfniadau rhannu gwybodaeth mwy ffurfiol.<br><br>Rydym yn agored i unrhyw gyfleoedd partneriaeth eraill, ond yn teimlo ein bod wedi adnabod ac eisoes yn weithredol mewn trefniadau partneriaeth perthnasol a chadarnhaol. | Amherthnasol | Amherthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **R3** | **Prisio a sicrhau adnoddau ar gyfer y strategaeth**<br>I helpu i sicrhau bod modd darparu'r strategaeth ddigidol a bod uchelgeisiau'r Sir wedi'u halinio a'r adnoddau sydd ar gael dylai'r Cyngor brisio'n llawn gost y gweithgaredd sydd ei angen i'w darparu | Caiff prosiectau eu prisio ar sail prosiectau unigol.<br><br>Bydd prisiadau lefel uchel yn cael eu darparu yn y strategaeth nesaf.<br><br>Fodd bynnag, nodwch ogydd: y caiff cyllidebau eu gosod yn flynyddol, felly ni fydd y Cyngor yn gallu sicrhau ymrwymiad i ddarparu strategaeth 5 mlynedd ymlaen llaw.<br><br>Bydd ceisiadau drwy'r dyraniad cyfalaf bloc blynyddol hefyd yn cael eu harchwilio.<br><br>Bydd y Cyngor yn edrych yn allanol am gyllid grant e.e. ar gyfer gweithredu prosiectau mewn ysgolion, nid yw TGCh/Digidol corfforaethol yn hanesyddol yn manteisio ar grantiau. | Rhagfyr 2025 (y strategaeth newydd i fod yn ei lle)<br><br>Mis Tachwedd bob blwyddyn<br><br>Parhaus | Barry Eaton - Prif Swyddog Digidol<br><br>Barry Eaton - Prif Swyddog Digidol<br><br>Barry Eaton - Prif Swyddog Digidol |
| **R4** | **Trefniadau ar gyfer monitro gwerth am arian ac effaith**<br>Er mwyn deall effaith a gwerth am arian prosiectau digidol a'r strategaeth ddigidol yn well, dylai'r Cyngor ddatblygu fframwaith i asesu gwerth am arian prosiectau digidol a'i ymdriniaeth strategol gyffredinol, yn cynnwys y graddau y caiff arbedion a gynlluniwyd eu gwireddu. | Mae system rheoli perfformiad y Cyngor, Verto, wedi'i diweddaru i gynnwys adran ar gyfiawnhad Achos Busnes i ddangos gwerth am arian ac mae hyn wedi'i gysylltu â'r cynllun corfforaethol.<br><br>Yn ychwanegol, o fewn yr adroddiad cau yn ogystal ag adran ar gostau lle gallwch gofnodi'r costau parhaus mae adran ar fuddion arian parod lle gellir nodi arbedion. Felly gellir cofnodi rhain yn y prosiect. | Amh - cwblhawyd<br><br>Amh - cwblhawyd | Jo Douglas (Rheolwr Prosiect Arweiniol)<br><br>Jo Douglas (Rheolwr Prosiect Arweiniol) |